

Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (lle rhoddwyd rhybudd)

Canolfan Iechyd Deintyddol Cila,
Bwrdd Iechyd Prifysgol Bro
Morgannwg Abertawe

Dyddiad yr arolygiad: 13 Medi
2017

Dyddiad cyhoeddi: 14 Rhagfyr
2017

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Y Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@wales.gsi.gov.uk
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.agic.org.uk

Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad	6
3.	Yr hyn a ganfuom.....	8
	Ansawdd profiad y claf	9
	Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol	14
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth.....	21
4.	Beth nesaf?	23
5.	Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol.....	24
	Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad .	25
	Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith	27
	Atodiad C – Cynllun gwella.....	28

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r corff annibynnol sy'n arolygu ac yn rheoleiddio gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal da.

Ein gwerthoedd

- **Canolbwyntio ar y claf:** rydym yn rhoi cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a phrofiad y cyhoedd wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud
- **Uniondeb:** mae ein ffordd o weithredu yn agored ac yn onest
- **Annibynnol:** rydym yn gweithredu a gwneud penderfyniadau gwrthrychol yn seiliedig ar yr hyn a welwn
- **Cydweithredol:** rydym yn datblygu partneriaethau effeithiol yn fewnol ac yn allanol
- **Proffesiynol:** mae ein dull gweithredu yn effeithiol, effeithlon a chyfrannol

Ein blaenoriaethau

Ein nod trwy ein gwaith yw:

Darparu sicrwydd:

Cynnig safbwynt annibynnol ar ansawdd y gofal.

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant trwy adrodd a rhannu arfer da.

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn yr ydym yn ei ddarganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer.

1. Yr hyn a wnaethom

Gwnaeth Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) gwblhau arolygiad â rhybudd o Ganolfan Iechyd Deintyddol Cila yn 11 Cygnet Close, Cila, Abertawe SA2 7BD o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg ar 13 Medi 2017.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau arolygydd AGIC ac adolygydd cymheiriaid deintyddol.

Bu AGIC yn archwilio sut roedd y gwasanaeth yn bodloni'r Safonau Iechyd a Gofal (2015).

Ceir mwy o fanylion am sut rydym yn cynnal arolygiadau o wasanaethau deintyddol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

2. Crynodeb o'n harolygiad

Ar y cyfan, gwelsom fod Canolfan Iechyd Deintyddol Cila yn darparu gofal diogel ac effeithiol i'w chleifion.

Roedd y practis yn canolbwyntio ar y cleifion ac roedd ganddo'r polisïau a'r gweithdrefnau gofynnol ar waith, a'r gwiriadau i sicrhau eu bod wedi cael eu darllen gan yr holl staff.

Rydym wedi argymhell y dylai'r practis ystyried rhoi sylw i'r llawr sydd wedi ei dreulio yn yr ardaloedd clinigol

Canfuom fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Mae'r practis wedi ymrwymo i roi profiad cadarnhaol i gleifion
- Gwelwyd tystiolaeth o reolaeth ac arweinyddiaeth gref gan reolwr y practis
- Gwelsom fod y rhyngweithiadau rhwng y staff a'r cleifion yn garedig ac yn gwrtais
- Roedd gan y practis gyfleusterau neilltuedig a phriodol ar gyfer sterileiddio offer deintyddol
- Yn ystod yr archwiliad, cymerodd y practis gamau gweithredu ar unwaith i ddatrys problemau cyn gynted ag y tynnwyd sylw atynt.

Gwnaethom argymhell y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Mae angen i'r holl bolisïau gynnwys dyddiadau adolygu.
- Mae angen diweddarau gwefan y practis er mwyn sicrhau bod yr wybodaeth a ddarperir yn gyfredol ac yn gyson â'r hyn sy'n cael ei arddangos yn y practis
- Mae angen rhoi sylw i'r llawr yn y tair ystafell driniaeth

- Mae angen i'r practis sicrhau bod cydsyniad cleifion yn cael ei gofnodi a bod y cofnodion meddygol yn cael eu cwblhau gyda'r holl ddata gofynnol yn ystod pob ymweliad.

3. Yr hyn a ganfuom

Cefndir y gwasanaeth

Mae Canolfan Iechyd Deintyddol Cila yn darparu gwasanaethau i gleifion yn ardal Cila. Mae'r practis yn rhan o wasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg.

Mae gan y practis dîm o staff sy'n cynnwys tri deintydd (un a oedd yn locwm), un hylenydd, dwy nyrs ddeintyddol, tair nyrs ddeintyddol dan hyfforddiant ac un rheolwr practis.

Mae'r practis yn darparu ystod o wasanaethau deintyddol y GIG a gwasanaethau deintyddol preifat.

Ansawdd profiad y claf

Gwnaethom siarad â chleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle'r oedd hynny'n briodol) i sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull o arolygu.

Canfuom fod y practis wedi ymrwymo i roi profiad cadarnhaol i'w gleifion. Roedd gan y practis system ar gyfer casglu barn cleifion yn rheolaidd drwy gynnal arolygon a gwahodd cleifion i roi awgrymiadau yn y blwch sylwadau yn y man aros. Nododd y cleifion a ddarparodd sylwadau eu bod yn fodlon ar y gwasanaeth a'r driniaeth a gawsant.

Cyn yr arolygiad, gwahoddwyd y practis i ddsbarthu holiaduron AGIC i gleifion, er mwyn casglu safbwyntiau am y gwasanaethau deintyddol a ddarperid. Cwblhawyd cyfanswm o 20 o holiaduron. Cafodd y rhan fwyaf o'r holiaduron eu cwblhau gan gleifion a oedd wedi derbyn triniaeth yn y practis am fwy na dwy flynedd. Roedd adborth gan y cleifion yn gadarnhaol. Yn yr holiaduron, gofynnwyd i'r cleifion sut y gallai'r practis deintyddol wella'r gwasanaeth mae'n ei ddarparu. Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys y canlynol:

"Mae'r staff yn gymwynasgar ac yn wybodus iawn. Rydw i bob amser yn hapus wrth imi adael y practis."

" Dim byd i'w wella"

"Hapus iawn gyda'r gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu ar hyn o bryd - staff gofalgwr iawn"

"Does dim angen gwneud unrhyw welliannau, darperir gwasanaeth proffesiynol iawn, cymwynasgar a gofalgwr bob amser. Diolch"

Cadw'n iach

Dyweddodd pob claf a gwblhaodd holiadur AGIC wrthym fod y tîm deintyddol wedi siarad â nhw ynghylch sut i gadw eu ceg a'u dannedd yn iach.

Gwelsom fod taflenni gwybodaeth hybu iechyd ar gael yn y man aros. Roedd y rhain yn cynnwys taflenni, posteri a gwybodaeth benodol ynghylch triniaethau a gwybodaeth ataliol.

Roedd arwydd “dim ysmegu” wedi'i arddangos yn y brif fynedfa i'r practis ac yn y man aros, a wnaeth gadarnhau'r pwyslais ar gydymffurfio â deddfwriaeth mangreoedd di-fwg.

Gofal ag urddas

Dywedodd yr holl gleifion a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod yn teimlo iddynt gael eu trin â pharch wrth ymweld â'r practis.

Roedd derbynfa a man aros y practis ar ffurf cynllun agored. Dywedodd staff wrthym, os oedd angen cael sgwrs breifat gyda chlaf, y gallent ddefnyddio ystafell rydd, i ffwrdd o olwg y dderbynfa a'r man aros. Gallai galwadau ffôn hefyd gael eu gwneud o olwg cleifion eraill, gan sicrhau preifatrwydd i'r claf.

Roedd gan yr holl ystafelloedd triniaeth deintyddol ddrysau a oedd yn llithro ar agor a chau a oedd yn eu gwneud yn hygyrch i gleifion mewn cadeiriau olwyn ac a allai gael eu cau wrth i glaf dderbyn triniaeth, gan gynnal preifatrwydd ac urddas.

Gwybodaeth i gleifion

Dywedodd pob claf a gwblhaodd holiadur wrthym ei fod yn teimlo'n rhan o'r penderfyniadau a wneir ynghylch ei driniaeth i'r graddau yr oedd yn dymuno, a'i fod wedi cael gwybodaeth glir am ei opsiynau triniaeth.

Dywedodd y rhan fwyaf o gleifion a gwblhaodd holiadur fod cost unrhyw driniaeth bob amser yn cael ei hesbonio iddynt cyn iddynt dderbyn unrhyw driniaeth a'u bod yn deall sut roedd cost eu triniaeth yn cael ei chyfrifo.

Yn ogystal â'r wybodaeth a oedd yn hyrwyddo iechyd deintyddol a oedd ar gael yn y man aros, roedd rhestr brisiau wedi'i harddangos a oedd yn amlinellu costau triniaethau preifat. Nid oedd unrhyw restr brisiau'n dangos costau triniaeth y GIG. Gwnaethom gynghori'r practis y dylid ystyried dull o arddangos gwybodaeth am unrhyw gostau cymwys y GIG.

Canfuom fod gwybodaeth am gleifion, mewn llawysgrifen ac yn electronig, yn cael ei storio'n ddiogel gan sicrhau bod gwybodaeth bersonol a sensitif yn cael ei hamddiffyn.

Gwelsom fod manylion y deintyddion sy'n gweithio yn y practis ac oriau agor y ddeintyddfa yn cael eu harddangos y tu allan i'r adeilad.

Cyfathrebu'n effeithiol

Roedd nifer fach o'r cleifion a gwblhaodd holiadur yn siaradwyr Cymraeg, a dywedodd y cleifion hyn wrthym mai dim ond weithiau roeddent yn gallu siarad yn Gymraeg â staff yn y practis. Dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion a gwblhaodd holiadur eu bod bob amser yn llwyddo i siarad â staff yn eu hiaith ddewisol.

Gwelsom rywfaint o wybodaeth gan gynnwys polisi cwynion y practis, wedi'i harddangos yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Gwnaethom arsylwi bod staff y dderbynfa'n foesgar ac yn gwrtais wrth siarad â chleifion wyneb yn wyneb a thros y ffôn.

Gwnaethom nodi nad oedd gwefan y practis yn cynnwys gwybodaeth gyfredol, gan gynnwys ei oriau agor a pholisi cwynion. Hefyd, roedd rhestr brisiau triniaethau deintyddol y GIG a'r rhestr a oedd yn nodi costau'r triniaethau preifat yn anghyson ar y wefan a'r wybodaeth a ddarparwyd yn y practis. Roedd angen diweddarau'r polisi cwyno hefyd i sicrhau cysondeb â'r hyn a oedd yn cael ei arddangos yn y practis.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n ofynnol i'r practis adolygu ei wefan er mwyn sicrhau bod yr wybodaeth a ddarperir yn gyfredol ac yn gyson â'r hyn a oedd yn cael ei arddangos yn y practis.

Gofal amserol

Dywedodd y rhan fwyaf o gleifion a gwblhaodd holiadur y byddent yn gwybod sut i gael mynediad at y gwasanaeth deintyddol y tu allan i oriau pe bai problem ddeintyddol frys ganddynt.

Dangoswyd manylion sut y gallai cleifion gael mynediad i ofal brys pan fo'r practis ar gau y tu mewn a'r tu allan i'r practis. Roedd y rhif hwn hefyd ar gael ar neges peiriant ateb y practis, ond nid oedd ar eu gwefan. Gwnaethom gynghori bod y practis yn darparu manylion ynghylch sut i gael mynediad at ofal mewn argyfwng ar ei wefan.

Canfuom fod y practis yn gwneud ymdrechion i sicrhau bod cleifion yn cael eu gweld yn brydlon. Dywedodd y staff wrthym pe bai deintydd yn rhedeg yn hwyr byddent yn sicrhau bod y cleifion yn cael eu hysbysu.

Gofal unigol

Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

Gwnaeth yr holl gleifion a gwblhaodd holiadur gadarnhau bod y deintydd yn holi am eu hanes meddygol cyn ymgymryd ag unrhyw driniaeth.

Hawliau pobl

Roedd gan y practis bolisi ar gydraddoldeb ac amrywiaeth.

Roedd y practis wedi'i leoli mewn adeilad un llawr. Roedd grisiau yn ogystal â ramp a oedd yn arwain at y practis ac a oedd yn caniatáu mynediad hawdd ar gyfer y rhai sydd ag anawsterau symud, a phobl sy'n defnyddio cadair olwyn. Roedd gan bob ystafell driniaeth ddrws a oedd yn llithro ar agor ac ar gau, gan ganiatáu mynediad hawdd.

Roedd toiled neillryw ar gyfer pobl anabl a oedd yn cynnwys canllawiau cymorth priodol, blwch gwaredu eitemau benywaidd, ac roedd larwm wedi'i osod.

Gwrando a dysgu o adborth

Gwelsom fod gan y practis weithdrefn ysgrifenedig ar gyfer cwynion. Roedd gwybodaeth i gleifion am sut i nodi pryder (cwyn) ynghylch triniaeth breifat, yn unol â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008¹, wedi'i harddangos yn ardal y dderbynfa yn y Saesneg a'r Gymraeg. Nid oedd unrhyw wybodaeth am godi pryder ynghylch triniaeth y GIG - Gweithdrefn GIG Cymru Gweithio i Wella². Gwnaethom argymhell y dylid arddangos y broses gwyno ar gyfer cleifion y GIG gan gynnwys manylion cyswllt Bwrdd Iechyd y Brifysgol a Chyngor Iechyd Cymuned. Gwnaethom hefyd argymhell bod gwefan y practis yn cael ei diweddarau er mwyn sicrhau cysondeb. Cytunodd y practis i sicrhau poster a thaflenni 'Gweithio i Wella' oddi wrth Fwrdd Iechyd y Brifysgol.

¹ [https://www.dentalprotection.org/uk/help-advice/regulations/wales/private-dentistry-\(wales\)-regulations-2008](https://www.dentalprotection.org/uk/help-advice/regulations/wales/private-dentistry-(wales)-regulations-2008)

² "Gweithio i Wella" yw'r broses integredig ar gyfer codi pryderon, ymchwilio iddynt, a dysgu ohonynt. Materion a nodir o ddigwyddiadau diogelwch cleifion, cwynion ac, o ran cyrff y GIG yng Nghymru, honiadau am wasanaethau a ddarperir gan gorff cyfrifol yng Nghymru yw pryderon.

Gwelsom fod gan y practis ffolder ar gyfer cofnodi unrhyw gwynion a dderbyniwyd ac roedd hyn yn cofnodi'r gŵyn benodol, a sut y cafodd ei datrys.

Dyweddodd mwyafrif y cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod yn gwybod sut i leisio pryder neu gŵyn ynghylch y gwasanaethau maent yn eu derbyn yn y practis deintyddol.

Mae'r practis yn cynnal arolwg i gleifion bob blwyddyn. Gwelsom hefyd flwch sylwadau yn y man aros ynghyd â phen a phapur, yn gwahodd cleifion i roi adborth ar y gwasanaethau a ddarparwyd. Roedd hwn yn ychwanegiad diweddar, mewn ymateb i awgrym wrth un o'r nyrsys dan hyfforddiant. Gwnaeth mwyafrif y cleifion a gwblhaodd holiadur gadarnhau bod y practis wedi ceisio canfod eu barn am y practis deintyddol.

Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai'r practis ddiweddarau ei broses gwynion i gynnwys manylion cyswllt y Bwrdd Iechyd y Brifysgol, a'r Cyngor Iechyd Cymunedol ac i ddarparu gwybodaeth am broses Gweithio i Wella'r GIG.

Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal o ansawdd uchel, gofal diogel a gofal dibynadwy sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Ar y cyfan, gwelsom dystiolaeth bod cleifion yn derbyn gofal deintyddol diogel ac effeithiol.

Gwelsom dystiolaeth bod cytundebau amrywiol ar waith er mwyn sicrhau bod yr amgylchedd a'r cyfleusterau yn ddiogel ac wedi'u cynnal a'u cadw'n dda.

Canfuom fod yr ystafelloedd triniaeth i'w gweld yn lân, yn daclus ac wedi'u gosod yn dda ond roedd angen gwneud gwelliannau i'r llawr yn yr ystafelloedd triniaeth er mwyn ymdrin â'r bylchau rhwng y llawr a'r sgyrtin.

Roedd trefniadau ar waith ar gyfer defnyddio offer pelydr-X yn ddiogel.

Mae angen i'r practis sicrhau bod cofnodion meddygol cleifion yn cael eu cwblhau yn ystod ymweliad pob claf er mwyn cadarnhau bod cydsyniad y claf wedi cael ei roi, a bod y gwiriadau iechyd priodol wedi'u cwblhau.

Gofal diogel

Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Ar y cyfan, canfuom fod trefniadau ar waith i amddiffyn diogelwch a llesiant staff sy'n gweithio yn y practis a'r bobl sy'n ymweld â'r practis.

Yn ôl pob golwg, roedd yr adeilad yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda y tu mewn a'r tu allan. Yn yr ystafelloedd triniaeth, gwelsom fod bylchau rhwng y lloriau a'r byrddau sgyrtin a allai rwystro glanhau trylwyr. Rydym yn cydnabod cynlluniau'r practis i adnewyddu'r lloriau yn ystod mis Ebrill 2018, ond gwnaethom argymhell ei fod yn dechrau ar y gwaith yn gynharach neu'n rhoi ateb dros dro ar waith i fynd i'r afael â'r broblem. Ni chodwyd unrhyw bryderon

gan gleifion ynghylch glendid y practis deintyddol; roedd pob un o'r cleifion a lenwodd holiadur yn teimlo bod y practis deintyddol, yn eu barn nhw, yn lân iawn.

Gwnaethom hefyd nodi bod cyflwr y cwpwrdd lle'r oedd y cemegion datblygu yn cael eu storio yn yr ystafell lle datblygir pelydrau-x yn wan iawn. Argymhellir bod cwpwrdd newydd yn cael ei osod yn lle hwn.

Roedd offer diogelwch tân ar gael mewn gwahanol leoliadau o amgylch y practis a gwelsom fod yr offer hwn wedi cael eu gwasanaethu o fewn y 12 mis diwethaf i sicrhau eu bod yn gweithio'n iawn.

Gwelsom fod contract ar waith ar gyfer symud a gwaredu gwastraff peryglus (clinigol) a gynhyrchir gan y practis. Gwelsom fod gwastraff peryglus yn cael ei storio'n ddiogel tu allan i adeilad y practis wrth iddo aros i gael ei gasglu gan gwmni'r contractwr. Gosodwyd offer didoli amalgam er mwyn tynnu gronynnau amalgam (math o sylwedd deintyddol sy'n cynnwys mercwri) a geir mewn llenwadau deintyddol o ddŵr gwastraff cyn cael gwared arnynt yn ddiogel. Roedd gwastraff nad yw'n beryglus (gwastraff domestig) yn cael ei gasglu trwy drefniadau â'r cyngor lleol.

Gwnaethom nodi bod gan y practis lyfr 'Adrodd ar Anafiadau, Clefydau neu Ddigwyddiadau Peryglus' (RIDDOR), a oedd yn cynnwys manylion cyswllt a phrotocolau'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch. Roedd polisi iechyd a diogelwch ar waith a gwnaethom nodi'r poster iechyd a diogelwch, ynghyd â gwybodaeth berthnasol, yng nghegin y staff.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r practis sicrhau bod y llawr yn cael ei selio mewn modd priodol er mwyn atal dŵr, llwch a sbwriel rhag cronni yn y rhan o'r llawr nad yw wedi'i selio yn yr ystafell driniaeth y tynnwyd sylw rheolwr y practis ati

Gwnaethom argymhell bod y practis yn ailystyried yr opsiynau storio yn yr ystafell lle datblygir pelydrau-X er mwyn sicrhau diogelwch a glendid.

Atal a rheoli heintiau

Roedd gan y practis gyfleusterau pwrpasol a phriodol ar gyfer glanhau a sterileiddio (dadheintio) offer deintyddol, yn unol ag argymhellion Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 (WHTM) 01-05³. Gwelsom fod sinc benodol i olchi dwylo yn yr ystafell yn ogystal â bocsys a oedd wedi'u labeli'n briodol gan nodi 'glân' a 'brwnt'. Roedd gan staff fynediad at gyfarpar diogelu personol megis menig tafladwy, ffedogau a chyfarpar diogelu llygaid.

Gwnaethom nodi bod tystysgrifau arolygiadau cynnal a chadw ar gael ar gyfer y peiriannau sterileiddio. Gwelsom fod y llyfrau log priodol ar gyfer gwirio a sterileiddio'r offer yn cael eu cynnal a'u cadw a bod polisi dadheintio ar waith a oedd wedi cael ei lofnodi a'i ddyddio gan yr holl staff er mwyn dangos eu bod wedi ei ddarllen. Gwelsom hefyd dystiolaeth bod gan yr holl staff clinigol dystysgrifau yn eu ffeiliau i gadarnhau bod eu hyfforddiant dadheintio'n gyfredol.

Roedd y practis wedi cynnal archwiliad rheoli heintiau, yn unol â chanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 (WHTM 01-05) ond nid oedd unrhyw ganlyniadau/gasgliadau wedi'u cofnodi a, lle bo'n briodol, nid oedd cynllun gweithredu.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r practis sicrhau ei fod yn cwblhau ei archwiliad rheoli heintiau, gan gynnwys casgliad, nodi canlyniadau a lle bo'n briodol, cynllun gweithredu.

Rheoli meddyginiaethau

Roedd gan y practis weithdrefnau ar waith i ymdrin ag argyfyngau cleifion. Gwelsom gofnodion a oedd yn dangos bod mwyafrif o'r staff wedi cael hyfforddiant o fewn y 12 mis blaenorol ar sut i ymdrin ag argyfyngau meddygol a sut i gyflawni adfywio cardio-pwlmonaidd. Canfuom, fodd bynnag, nad oedd

³Mae'r ddogfen Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM 01-05) (Diwygiad 1) yn darparu canllawiau i weithwyr proffesiynol ar ddadheintio mewn practisau gofal sylfaenol a phractisau deintyddol cymunedol.

hyfforddiant dau aelod o'r staff yn gyfredol. Gwnaethom hysbysu rheolwr y practis o'n canfyddiadau a gwnaed trefniadau yn ystod yr arolygiad i'r aelodau hynny o staff fynychu hyfforddiant priodol cyn diwedd mis Medi.

Canfuom fod y practis wedi penodi person, a adwaenid wrth ei enw, a oedd yn gyfrifol am gymorth cyntaf.

Gwelsom fod cyffuriau a chyfarpar brys yn cael eu storio'n briodol ond canfuom fod y dyddiad wedi dod i ben ar rywfaint o'r offer, yn bennaf yr offer anadlu Oropharyngeal. Gwnaethom dynnu sylw rheolwr y practis at hyn, ac fe wnaeth archebu stoc newydd ar unwaith a fyddai'n cael ei ddsbarthu drannoeth. Gwnaethom argymhell yn unol â'r safonau a osodir gan y Cyngor Dadebru (DU)⁴, bod y practis yn cyflwyno system effeithiol sy'n cynnwys gwirio bod cyffuriau ac offer a ddefnyddir mewn achos brys yn cael eu cadw o fewn eu dyddiad dod i ben ac yn barod i'w defnyddio.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r practis wneud trefniadau addas i sicrhau bod:

- pecyn llawn a ddefnyddir mewn achos brys ar gael yn y practis, a bod
- gwiriadau rheolaidd yn cael eu cynnal ar y cyffuriau a'r cyfarpar brys;

yn unol â'r safonau ansawdd a amlinellir gan y Cyngor Dadebru (DU).

Diogelu plant ac oedolion mewn perygl

Roedd gan y practis bolisiau a gweithdrefnau ar waith i hyrwyddo a diogelu lles plant ac oedolion sy'n agored i niwed. Er bod y polisi sy'n ymwneud ag amddiffyn plant yn cynnwys manylion cyswllt am yr asiantaethau perthnasol, nid felly'r polisi ar amddiffyn oedolion agored i niwed. Gwnaethom argymhell y dylai hyn gael ei gywiro.

⁴ Mae'r [Cyngor Dadebru \(DU\)](#) yn bodoli i hyrwyddo canllawiau dadebru gwyddonol o ansawdd uchel sy'n berthnasol i bawb, ac i gyfrannu at achub bywydau trwy addysg, hyfforddiant, gwaith ymchwil a chydweithredu.

Roedd yr holl staff wedi cwblhau hyfforddiant amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed.

Dywedwyd wrthym fod gwiriadau cyn cyflogaeth yn cael eu cynnal ar gyfer unrhyw aelodau o staff newydd a gwelsom dystysgrifau Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer holl aelodau'r staff.

Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai'r practis gynnwys manylion cyswllt ar gyfer amddiffyn oedolion agored i niwed fel rhan o'r polisi ynghyd â manylion cyswllt ar gyfer holl dimau diogelu priodol yr awdurdod lleol.

Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol

Gwelsom fod yr ystafelloedd triniaeth yn cynnwys offer priodol ar gyfer diogelwch cleifion a'r tîmau deintyddol.

Roedd yr holl offer radiolegol yn cael ei gynnal a'i gadw ac yn gweithio'n dda. Gwelsom dystiolaeth bod trefniadau addas ar waith ar gyfer defnyddio offer radiograffig (pelydr-X) yn ddiogel. Yn unol â gofynion y Cyngor Deintyddol Cyffredinol⁵ a Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000, roedd yr holl staff clinigol wedi cwblhau'r hyfforddiant gofynnol. Gwelsom fod y ffeil Amddiffyn Rhag Ymbelydredd yn cael ei chynnal a'i chadw ac yn cynnwys yr holl wybodaeth hanfodol.

Gwelsom dystiolaeth bod y practis wedi cynnal archwiliadau sicrhau ansawdd delweddau pelydr-X.

Gofal effeithiol

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Mae cleifion yn elwa ar bractis sy'n ceisio gwella'r gwasanaeth a ddarperir yn barhaus. Gwelsom dystiolaeth bod y practis yn ymgymryd â nifer o archwiliadau gan gynnwys archwiliad rheoli heintiau ac adolygiadau cyfoedion.

⁵ Cyngor Deintyddol Cyffredinol – <http://www.gdc-uk.org/Pages/default.aspx>

Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi

Gwnaethom nodi bod staff clinigol yn y practis yn defnyddio offeryn datblygu ymarfer Deoniaeth Cymru, sef y Matrics Aeddfedrwydd ar gyfer Deintyddiaeth.⁶ Offeryn datblygu tîm practis deintyddol yw Offeryn Hunanwerthuso'r Matrics Aeddfedrwydd ar gyfer Deintyddiaeth ac mae'n galluogi'r tîm i ganolbwyntio ar sut maent yn gweithio.⁷

Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

Roedd gan y practis gyfuniad o gofnodion papur ac electronig a gwnaethom nodi ei fod yn storio'r cofnodion yn briodol i sicrhau diogelwch data personol. Roedd data electronig yn cael ei gadw bob dydd. Roedd y modd y caniateid mynediad at sgriniau cyfrifiaduron yn ddiogel ac yn ochelgar.

Gwnaethom nodi bod polisi Diogelu Data ar waith yn y practis.

Cadw cofnodion

Gwnaethom edrych ar hapsampl o gofnodion cleifion. Ar y cyfan, canfuom fod y gwaith o gadw cofnodion a rhoi gofal i gleifion o ansawdd da. Mewn rhai achosion, canfuom fod hepgoriadau, yn bennaf nid oedd cofnod o'r canlynol:

- cydsyniad i driniaeth
- Archwiliadau periodontol sylfaenol.⁸
- hanes cymdeithasol cleifion, gan gynnwys eu defnydd o alcohol a thybaco
- a roddwyd cyngor ynglŷn â rhoi'r gorau i ysmegu

⁶ <http://www.walesdeanery.org/index.php/cy/practice-quality-improvement-programme/deintyddiaeth-matrics-aeddfedrwydd>.

⁷ <https://www.walesdeanery.org/improving-practice-quality/maturity-matrix-dentistry>

⁸Mae asesiad gofalus o'r meinwe periodontol yn gydran hanfodol o reoli cleifion. Mae'r Archwiliad Periodontol Sylfaenol (BPE) yn cael ei ddefnyddio fel dull sgrinio sylfaenol i wirio statws periodontol claf

- dewisiadau o ran triniaethau

Yr hyn y mae angen ei wella

Yn unol â safonau proffesiynol o ran cadw cofnodion, rhaid i'r practis sicrhau bod cofnodion cleifion yn cael eu cwblhau yn ystod ymweliad pob claf er mwyn cofnodi:

- cydsyniad i driniaeth
- Archwiliadau Periodontol Sylfaenol.⁹
- hanes cymdeithasol cleifion, gan gynnwys eu defnydd o alcohol a thybaco
- a roddwyd cyngor ynglŷn â rhoi'r gorau i ysmegu
- dewisiadau o ran triniaethau

⁹Mae asesiad gofalus o'r meinwe periodontol yn gydran hanfodol o reoli cleifion. Mae'r Archwiliad Periodontol Sylfaenol (BPE) yn cael ei ddefnyddio fel dull sgrinio sylfaenol i wirio statws periodontol claf

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Gwnaethom ystyried sut mae gwasanaethau'n cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn cefnogi darparu gofal diogel ac effeithiol. Gwnaethom hefyd ystyried sut mae gwasanaethau'n adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain ochr yn ochr â'r Safonau Iechyd a Gofal.

Roedd y gwaith o reoli'r practis o ddydd i ddydd yn cael ei gyflawni gan reolwr y practis.

Gwelsom fod systemau a phrosesau ar waith gan y practis sy'n sicrhau bod y practis a'r staff yn cael cefnogaeth a'u bod yn ymrwymo i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel i gleifion.

Gwelsom fod ystod o bolisiâu a gweithdrefnau wedi eu sefydlu, sydd â'r nod o sicrhau diogelwch y staff a'r cleifion.

Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Y prif ddeintydd sy'n berchen ar Ganolfan Iechyd Deintyddol Cila ac mae'n gweithio yno'n amser llawn. Gwelsom fod gan y practis arweinyddiaeth dda iawn a bod staff yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau. Roedd y gwaith o reoli'r practis o ddydd i ddydd yn cael ei gyflawni gan reolwr practis effeithlon. Gwelsom fod perthynas dda rhwng staff y practis.

Roedd y practis yn drefnus, ac roedd cofnodion da yn cael eu cadw ledled mwyafrif y meysydd. Gwelsom fod amrywiaeth eang o bolisiâu a gweithdrefnau ar waith i sicrhau diogelwch staff a chleifion. Gwnaethom sylwi bod pob polisi wedi cael ei lofnodi gan yr holl aelodau staff a oedd yn dangos eu bod wedi ei ddarllen. Gwnaethom nodi dim ond rhai o'r dogfennau hyn a oedd yn cynnwys dyddiadau adolygu. Rydym yn cynghori, er cysondeb, bod gan yr holl ddogfennau ddyddiad cyhoeddi a dyddiad adolygu, gan sicrhau eu bod i gyd yn cael eu cadw'n gyfredol. Felly, gall staff fod yn hyderus bod ganddynt fynediad at wybodaeth berthnasol/gyfredol.

Cafwyd tystiolaeth o brosesau sicrhau ansawdd effeithiol ac ymgwymerwyd ag archwiliadau perthnasol, fel a ddengys yn archwiliad Memorandwm Technegol

Iechyd Cymru 01-05 ac archwiliadau sicrhau ansawdd delweddau pelydr-X, er bod angen i'r archwiliad Memorandwm Technegol Iechyd Cymru gofnodi canlyniad (fel nodwyd uchod). Roedd polisi sicrhau ansawdd ar waith.

Roedd pob aelod o'r staff clinigol wedi'u cofrestru gyda'r Cyngor Deityddol Cyffredinol, ac roedd bathodyn eu henw yn dangos eu rhif gan Y Cyngor Deityddol Cyffredinol. Roedd tystysgrifau AGIC y deityddion wedi'u harddangos, fel sy'n ofynnol o dan Reoliadau Deityddiaeth Breifat (Cymru) 2008.

Staff ac adnoddau

Y gweithlu

Gwelsom dystysgrifau a oedd yn dangos bod staff wedi mynychu hyfforddiant ar amrywiaeth o bynciau sy'n berthnasol i'w rôl.

Dyweddodd staff wrthym eu bod yn hapus wrth wneud eu swyddi a'u bod yn derbyn y gefnogaeth a'r hyfforddiant yr oedd eu hangen arnynt. Gwelsom dystiolaeth bod gan y practis raglen gynefino a bod staff yn derbyn arfarniad blynyddol am eu perfformiad.

Gwelsom dystiolaeth o gyfarfodydd tîm y practis a gynhaliwyd yn rheolaidd a oedd yn cael eu hategu gan gofnodion manwl a oedd wedi'u llofnodi gan yr holl staff.

Roedd cofnodion ar gael a oedd yn dangos bod y staff wedi eu himiwneiddio rhag Hepatitis B, er mwyn amddiffyn cleifion a hwythau rhag eu heintio.

Gwelsom fod y deityddion a'r staff nyrsio wedi eu cofrestru gyda'r Cyngor Deityddol Cyffredinol ar gyfer ymarfer a bod yswiriant indemnio wedi'i drefnu.

Yn unol â'r rheoliadau ar gyfer deityddiaeth breifat, mae'n ofynnol i bob deitydd sy'n darparu gwasanaethau deityddol preifat yng Nghymru feddu ar dystysgrif y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd wedi'i chyflwyno o fewn y tair blynedd diwethaf. Gwelsom dystiolaeth bod gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd wedi cael eu cynnal ar holl aelodau'r staff.

4. Beth nesaf?

Lle'r ydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, mae'r rhain wedi'u manylu yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle bônt yn berthnasol):

- Atodiad A: Mae hwn yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Mae hwn yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol ynghylch diogelwch cleifion lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith gan ddweud wrthym am y camau brys mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Mae hwn yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Dylai'r cynlluniau gwella:

- Ddatgan yn eglur pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw digonol.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth:

- Sicrhau nad yw canfyddiadau'n systemig ar draws mannau eraill o fewn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi derbyn sylw.

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

5. Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol

Fel arfer, bydd arolygiadau practisau deintyddol yn arolygiadau lle rhoddir rhybudd. Mae practisau deintyddol yn derbyn hyd at ddeuddeg wythnos o rybudd o arolygiad. Gwneir hyn er mwyn gwneud trefniadau i sicrhau bod y practis yn cael ei gynnal yn ôl yr arfer, a bod yr arolygiad yn peri cyn lleied o aflonyddwch i gleifion â phosib.

Mae adborth yn cael ei roi i gynrychiolwyr y practis ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol a lefel strategol.

Rydym yn gwirio sut mae practisau deintyddol yn bodloni [Safonau Iechyd a Gofal 2015](#). Bydd unrhyw ddeintydd yn y practis sydd wedi'i gofrestru gydag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn destun darpariaethau [Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat \(Cymru\) 2008](#) a [Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat \(Cymru\) \(Diwygio\) 2011](#). Lle bo hynny'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â [Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999](#), [Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio \(Datguddio Meddygol\) 2000](#), ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill, megis [Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol](#).

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn practisau deintyddol.

Ceir mwy o fanylion am sut mae AGIC yn arolygu [practisau deintyddol](#) a'r [GIG](#) ar ein gwefan.

Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod yr arolygiad. Oherwydd yr effaith (bosibl) ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion	Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Er bod yr holl gyffuriau ac offer brys yn cael eu storio'n briodol, roedd y dyddiad wedi dod i ben ar rywfaint o'r offer.	Roedd hyn yn golygu yn achos argyfwng bod risg i gleifion gael eu trin gyda meddyginiaeth a oedd o bosibl yn aneffeithiol am fod y dyddiad wedi dod i ben	Gwnaethom dynnu sylw reolwr y practis at hyn ar y pryd.	Gwnaeth rheolwr y practis archebu stoc newydd ar unwaith a rhoddodd dystiolaeth inni o'r archeb a wnaed gan esbonio y byddai'n cael ei dosbarthu drannoeth.
Gwelsom gofnodion a oedd yn dangos bod mwyafrif o'r staff wedi cael hyfforddiant o fewn y 12 mis blaenorol ar sut i ymdrin ag argyfyngau meddygol a sut i ymdopi. Canfuom fod hyfforddiant dadebru cardio-pwlmonaidd dau aelod o'r staff wedi dod i ben. Gwnaethom hysbysu rheolwr y practis o'n canfyddiadau a gwnaed trefniadau yn ystod yr arolygiad i'r aelodau hynny o	Mae'n ofynnol i'r staff clinigol dderbyn hyfforddiant bob 12 mis ynghylch sut i ymdrin ag argyfyngau meddygol a sut i gyflawni adfywiad cardio-pwlmonaidd.	Gwnaethom dynnu sylw rheolwr y practis at y mater hwn.	Yn ystod y diwrnod, gwnaeth rheolwr y practis drefniadau i'r ddau aelod o staff fynychu hyfforddiant fis Hydref 2017. Ers yr arolygiad, rydym wedi clywed y bu'n rhaid i'r hyfforddiant gael ei ad-drefnu ac y bydd bellach yn cael ei gynnal yn ystod misoedd Hydref a Thachwedd 2017.

staff fynychu hyfforddiant priodol cyn diwedd mis Medi.			
---	--	--	--

Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Canolfan Iechyd Deintyddol Cila

Dyddiad yr arolygiad: 13 Medi 2017

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon dybryd ynghylch diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys y mae'n eu cymryd.

Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ni nodwyd unrhyw broblemau sicrwydd ar unwaith.				

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (llythrennau bras):

Swydd:

Dyddiad:

Atodiad C – Cynllun gwella

Gwasanaeth: Canolfan Iechyd Deintyddol Cila

Dyddiad yr arolygiad: 13 Medi 2017

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd profiad y claf				
Mae'n ofynnol i'r practis ddangos sut y bydd yn sicrhau bod cleifion y GIG yn cael y wybodaeth gywir ynglŷn â sut i wneud cŵyn am wasanaethau deintyddol a dderbynnir yn y practis.	4.2 Gwybodaeth Cleifion	Mae'r wefan wedi cael ei diweddarau ac ychwanegwyd manylion cyswllt ar gyfer Bwrdd Iechyd y Brifysgol a Chyngor Iechyd Cymuned ac mae'r wefan bellach yn cynnwys gwybodaeth ynghylch proses Gweithio i Wella'r GIG os oes angen cymorth ychwanegol ar glaf ynghylch cŵyn.	P. Edwards	Hydref 2017
Dylai'r practis ddiweddarau ei broses gwynion i	6.3 Gwrando a	Mae polisi'r practis wedi cael ei adolygu	P. Edwards	Hydref 2017

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
gynnwys manylion cyswllt Bwrdd Iechyd y Brifysgol, a'r Cyngor Iechyd Cymunedol ac i ddarparu gwybodaeth am broses Gweithio i Wella'r GIG	dysgu o adborth	a'i ddiweddarau i gynnwys manylion cyswllt ar gyfer Bwrdd Iechyd y Brifysgol a Chyngor Iechyd. Mae'r holl staff wedi darllen a llofnodi'r polisi.		
Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol				
Rhaid i'r practis sicrhau bod y llawr yn cael ei selio mewn modd priodol er mwyn atal dŵr, llwch a sbwriel rhag cronni yn y rhan o'r llawr nad yw wedi'i selio yn yr ystafell driniaeth tynnwyd sylw'r rheolwr practis ati	2.1 Rheoli risg a hyrwyddo iechyd a diogelwch	Fe fydd llawr newydd sbon yn cael ei osod, yn hytrach nac adnewyddu rhannau ohono. Fe fydd hwn wedi cael ei gwblhau erbyn mis Mawrth 2018 oherwydd fe fydd angen i'r practis fod ar gau pan fydd y llawr yn cael ei osod, a does dim dyddiad cynharach ar gael gan y cwmni a fydd yn cynnal y gwaith.	P. Edwards	Mawrth 2018
Gwnaethom argymhell bod y practis yn ailystyried yr opsiynau storio yn yr ystafell lle datblygir pelydrau-X er mwyn sicrhau diogelwch a glendid.		Mae'r ystafell lle datblygir pelydrau-X yn cael ei hadnewyddu i gynnwys cwpwrdd datblygu stoc ac arwyneb gwaith newydd. Mae hyn ar waith ar hyn o bryd.	P. Edwards	Rhagfyr 2017
Dylai'r practis sicrhau ei fod yn cwblhau archwiliad rheoli heintiau, gan gynnwys casgliad, gosod canlyniadau a lle bo'n	2.4 Atal a rheoli heintiau a dadheintio	Ychwanegwyd casgliad at yr archwiliad presennol, mae popeth yn cyd-fynd â'r weithdrefn arfer orau. Mae'r canlyniad yn dangos bod angen penodi unigolyn	P. Edwards	Hydref 2017

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
berthnasol, cynllun gweithredu.		sy'n gfrifol am ddadheintio.		
<p>Rhaid i'r practis wneud trefniadau addas i sicrhau bod:</p> <ul style="list-style-type: none"> • pecyn llawn a ddefnyddir mewn achos brys ar gael yn y practis, a bod • mae gwiriadau rheolaidd yn cael eu cynnal ar y cyffuriau a'r cyfarpar brys; <p>yn unol â'r safonau ansawdd a amlinellir gan y Cyngor Dadebru (DU).</p>	2.6 Rheoli meddyginiaethau	Gwnaed trefniadau i sicrhau bod y cyfarpar cyffuriau a ddefnyddir mewn achos brys yn llwyr cydymffurfio a bydd gwiriadau rheolaidd sy'n digwydd yn wythnosol yn sicrhau bod yr offer yn gweithio'n gywir, ac nad yw'r dyddiad wedi dod i ben ar y meddyginiaethau na'r offer. Mae hwn wedi'i gofnodi.	P. Edwards	Medi 2017
Dylai'r practis gynnwys manylion cyswllt ar gyfer diogelu oedolion agored i niwed fel rhan o'r polisi ynghyd â manylion cyswllt ar gyfer holl dimau diogelu priodol yr awdurdod lleol.	2.7 Diogelu plant a diogelu oedolion mewn perygl	Mae'r polisi wedi cael ei adolygu a'i ddiweddarau i gynnwys y manylion cyswllt cyfredol ynghylch diogelu. Mae pob aelod o staff wedi darllen a llofnodi'r fersiwn gyfredol.	P. Edwards	Medi 2017
<p>yn unol â safonau proffesiynol o ran cadw cofnodion, rhaid i'r practis sicrhau bod cofnodion cleifion yn cael eu cwblhau yn ystod ymweliad pob claf er mwyn cofnodi:</p> <ul style="list-style-type: none"> • cydsyniad gwybodus i driniaeth 	3.5 Cadw cofnodion	<p>Mae'r staff perthnasol wedi derbyn hyfforddiant ac mae hynny wedi cael ei gofnodi yn eu ffeiliau personol.</p> <p>Mae templedi newydd, cyfredol, wedi'u hychwanegu at y cyfrifiadur er mwyn sicrhau bod yr holl staff yn dilyn yr un</p>	P. Edwards	Medi 2017

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<ul style="list-style-type: none"> Archwiliadau periodontol sylfaenol.¹⁰ hanes cymdeithasol y cleifion, gan gynnwys eu defnydd o alcohol a thybaco os rhoddwyd cyngor ynglŷn â rhoi'r gorau i ysmegu dewisiadau o ran triniaethau 		<p>weithdrefn wrth gofnodi nodiadau cleifion.</p> <p>Bydd archwiliadau cofnodion cleifion yn cael eu cynnal bob tri mis.</p>		

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

¹⁰ Mae asesiad gofalus o'r meinwe periodontol yn gydran hanfodol o reoli cleifion. Mae'r Archwiliad Periodontol Sylfaenol (BPE) yn cael ei ddefnyddio fel dull sgrinio sylfaenol i wirio statws periodontol claf

Enw (llythrennau bras):P. EDWARDS

Swydd: RHEOLWR Y PRACTIS

Dyddiad: 21/11/2017